# Cofnodion - CYFARFOD BLYNYDDOL
# CYNGOR CYMUNED PISTYLL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 9fed o Dachwedd 2021** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isa'** |
| **CADEIRYDD** | **Sara Williams** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Croesawodd Ynyr Ellis (YE) pawb i'r cyfarfod. Yn bresennol heno roedd Ynyr Ellis **(YE),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP),** Cyng. Aled Jones **(AJ),** William Jones **(WJ),** John Owen **(JO),** Olwen Roberts **(OR).** |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Sara Williams **(SW),** Emlyn Hughes **(EH)** |
| 3. | **ETHOL CADEIRYDD AC IS GADEIRYDD** |
| | Cynigwyd YE fel cadeirydd gan SP gyda LJ yn eilio a phawb yn cytuno.<br>Cynigwyd SP fel Is-gadeirydd gan LJ gyda GW yn eilio a phawb yn cytuno.<br>Gan fydd tymor YE yn un fer cytunodd i gadeirio tan Gyfarfod Blynyddol Mai 2022. |
| 4. | **CADARNHAU CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2020** |
| | Cynigwyd cywirdeb y cofnodion gan LJ gyda GJ yn eilio a phawb yn cytuno. |
| 5. | **ADOLYGU TREFNIADAU DIRPRWYO I BWYLLGORAU, IS-BWYLLGORAU, (YN CYNNWYS SWYDDOG PRIODOL A SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL) A PHENODI UNRHYW BWYLLGORAU NEWYDD** |
| | Cytunodd yr aelodau i barhau i drafod fel undeb mewn cyfarfod misol.<br>Cynnigiodd YR ac eiliodd LJ I'r Clerc barhau fel Swyddog Cyfrifol a Swyddog Ariannol y Cyngor, cytunodd pawb. |
| 6. | **ADOLYGU CYNRYCHIOLAETH AR NEU WAITH GYDA CHYRFF ALLANOL A THREFNIADAU AR GYFER ADRODD YN ÔL** |
| | Cynigiodd YR ac eiliodd LJ I SP barhau i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor y Ganolfan a Phwyllgor y Cae Chwarae - cytunodd pawb. |
| 7. | **ADOLYGU TANYSGRIFIADAU'R CYNGOR A/NEU STAFF I GYRFF ERAILL** |
| | Cynigiodd Lj ac eiliodd YR i'r Clerc barhau fel cynrychiolydd y Cyngor gydag Un Llais Cymru. |

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | |
|---|---|
| 8. | **ADOLYGU A MABWYSIADU RHEOLAU SEFYDLOG** |
| | Adolygwyd y Rheolau Sefydlog. Cytunwyd yn flaenorol bod rhai pwyntiau yn di angen. Cynigiodd GW fod y Cyngor yn mabwysiadu'r man newidiadau. Eiliwyd gan GJ a chytunodd pawb. |
| 9. | **ADOLYGU A MABWYSIADU RHEOLAU ARIANNOL** |
| | Adolygwyd y Rheolau Ariannol cytunodd pawb eu bod yn gyfredol. |
| 10. | **ADOLYGU STOCRESTR O DIR AC ASEDAU GAN GYNNWYS ADEILADAU AC OFFER SWYDDFA AR GYFER YSWIRIANT** |
| | Cynigiodd YR cywirdeb y rhestr gyda LJ yn eilio a phawb yn cytuno. |
| 11. | **ADOLYGU GWEITHDREFN CWYNION Y CYNGOR** |
| | Mabwysiadwyd Gweithdrefn Cwynion y Cyngor. Cynnigiodd YR ei gywirdeb gyda GJ yn eilio a phawb yn cytuno. |
| 12. | **ADOLYGU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR AR GYFER TRIN CEISIADAU A WNAED O DAN DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000 A DEDDF DIOGELU DATA 1998** |
| | Adolygwyd y weithdrefn. Cynnigiodd GJ ac eiliodd YR nid oedd angen newidiadau. Cytunodd yr aelodau. |
| 13. | **ADOLYGU POLISI'R CYNGOR AR GYFER DELIO Â'R WASG/CYFRYNGAU** |
| | Adolygwyd y Polisi, cytunwyd nid oedd angen newidiadau. |
| 14. | **ADOLYGU A MABWYSIADU'R COD YMDDYGIAD** |
| | Cynnigiodd YR bod y Cod ymddygiad yn gyfredol gyda GW yn eilio a phawb yn cytuno. |
| 15. | **CADARNHAU CYNLLUNIAU CRONFEYDD WRTH GEFN** |
| | Cytunwyd bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio ar les y gymuned. |
| 16. | **ADOLYGU TREFNIADAU LWFANS CYNGHORWYR** |
| | Cytunodd yr holl aelodau i optio allan o dderbyn y lwfans. |
| 17. | **PENNU AMSER A LLE CYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR LLAWN HYD AT AC YN CYNNWYS CYFARFOD BLYNYDDOL NESAF Y CYNGOR LLAWN.** |
| | Gan ei bod yn anodd iawn rhagweld argymhellion a chyfyngiadau gan y Llywodraeth cytunwyd i hysbysebu yn fisol lleoliad cyfarfodydd y Cyngor ar y wefan. |